Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Options Llys-y-Delyn**

**Sir Ddinbych**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

04/04/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Options Llys-y-Delyn

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Options Autism (4) Cyf |
| Lleoedd cofrestredig | 4 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 07 Mehefin 2021 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r staff gofal yn deall anghenion corfforol ac anghenion llesiant emosiynol y bobl ac yn cael strategaethau clir o ran sut y dylid darparu gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol a thîm iechyd clinigol darparwr y gwasanaeth ar gael i'r bobl. Maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, yn cael eu hannog i fyw bywyd iach ac yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau byw sylfaenol. Mae'r asesiadau cyn derbyn yn ystyried cydnawsedd y bobl â'i gilydd ac yn llywio asesiad y darparwr a'r ddogfen gynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Caiff cynlluniau personol y bobl, y cynlluniau cefnogi ymddygiad cadarnhaol a'r asesiadau risg eu hadolygu ac maent yn canolbwyntio ar sicrhau y gall y bobl gyflawni'r nodau a'r canlyniadau a nodwyd ar eu cyfer.

Mae'r cartref wedi'i ddodrefnu'n briodol ac mae'n cynnwys cyfleusterau amrywiol sy'n addas ar gyfer anghenion a dewisiadau unigol y bobl. Mae amrywiaeth o wiriadau iechyd a diogelwch yn cael eu cwblhau, mae tîm cynnal a chadw ar gael i ddarparwr y gwasanaeth ac mae'n defnyddio contractwyr allanol pan fo angen. Mae darparwr y gwasanaeth yn cwblhau gwiriadau recriwtio diogel ac mae staff gofal newydd yn cwblhau cyfnod sefydlu ffurfiol. Mae amrywiaeth o hyfforddiant ar gael i'r staff gofal, maent yn cael sesiynau goruchwylio ac maent yn canmol y cymorth a roddir gan y tîm rheoli. Mae'r unigolyn cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn effeithiol, a chaiff archwiliadau ac adroddiadau monitro ansawdd eu cwblhau. Caiff gwybodaeth weithredol am y gwasanaeth ei rhannu â thîm uwch-reolwyr darparwr y gwasanaeth.

## Llesiant

Lle bynnag y bo'n bosibl, mae'r bobl yn cael eu cefnogi i gael rheolaeth dros eu dewisiadau bywyd o ddydd i ddydd ac mae'r staff yn gwrando arnynt. Darperir canllawiau ymddygiadol manwl i'r staff gofal i'w helpu i ddeall dewisiadau personol y bobl, ac i roi ffiniau cyson a gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn iddynt. Caiff dymuniadau a dewisiadau personol y bobl eu nodi gan ddefnyddio systemau cyfathrebu heb gymorth a gyda chymorth. Mae ganddynt hefyd deulu/cynrychiolwyr a gwasanaethau comisiynu, a gallant gael gafael ar wasanaeth eiriolaeth annibynnol a all eu helpu i wneud penderfyniadau.

Mae amrywiaeth o wasanaethau iechyd a thîm clinigol darparwr y gwasanaeth ar gael i'r bobl, ond ni ellir darparu gofal a chymorth yn Gymraeg. Mae'r staff gofal yn helpu'r bobl i fyw bywyd iach ac i fynd i apwyntiadau â gwasanaethau iechyd yn y gymuned. Caiff ymgyngoriadau a chanlyniadau apwyntiadau eu cofnodi yn ffeiliau gofal y bobl a rhennir y wybodaeth â'r tîm o staff. Caiff anghenion llesiant ac anghenion cymorth ymddygiadol y bobl eu hystyried, a chaiff deiet iach a chytbwys ei annog. Er bod darparwr y gwasanaeth yn annog y cartref i ddathlu diwylliant Cymru ac y gall y staff gofal fynd ar gwrs dysgu Cymraeg, nid yw'r gwasanaeth yn darparu'r ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg ar hyn o bryd. Dylai'r darparwr gyfeirio at ddogfen ‘Mwy na Geiriau’ Llywodraeth Cymru, sef y fframwaith strategol olynol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol i gael rhagor o wybodaeth.

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth bolisïau a gweithdrefnau diogelu perthnasol ar waith. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant ar ddiogelu a dywedwyd wrthym nad oes ganddynt unrhyw bryderon ynglŷn â diogelwch a llesiant y bobl. Maent hefyd yn gallu cael gafael ar bolisïau diogelu a chwythu'r chwiban darparwr y gwasanaeth. Mae'r wybodaeth yn y ffeiliau gofal yn dangos y caiff asesiadau risg a chynlluniau cefnogi ymddygiad y bobl eu diweddaru'n rheolaidd a'u hadolygu pan fydd angen. Maent yn cynnwys ac yn ystyried y broses o nodi a rheoli sefyllfaoedd niweidiol posibl ac mae'r wybodaeth ar gael yn hawdd i'r staff gofal. Mae darparwr y gwasanaeth hefyd yn cwblhau gwiriadau recriwtio staff manwl.

Caiff y bobl eu hannog i ddatblygu eu sgiliau byw'n annibynnol ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden yn y gymuned. Yn dibynnu ar lefel eu dealltwriaeth a'u gallu, mae'r bobl yn dewis y math o weithgareddau y maent am gymryd rhan ynddynt. Mae'r staff gofal yn cefnogi gweithgareddau sy'n rhan o drefn y bobl o ddydd i ddydd a all gynnwys mynychu lleoliadau addysg/gwaith, cwblhau tasgau gwaith tŷ, a chymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden yn y gymuned fel mynd i gerdded ac ymweld â lleoedd o ddiddordeb.

Mae'r bobl yn byw mewn llety addas sy'n ddiogel ac yn eu cefnogi i gyflawni eu llesiant. Mae'r cartref yn lân, wedi'i addurno'n addas ac wedi'i ddodrefnu'n dda. Mae ystafelloedd y bobl yn fawr, ac mae'r décor a'r dodrefn yn cyfateb i'r lefel o anghenion a aseswyd ar eu cyfer a'u dewisiadau. Mae cyfleusterau ar gael iddynt ddatblygu eu sgiliau byw'n annibynnol ac mae gardd fawr a diogel yn rhan o'r cartref. Mae tîm cynnal a chadw darparwr y

gwasanaeth yn ymgymryd â gwaith atgyweirio a gwelliannau a nodir, ac mae'r gwiriadau iechyd a diogelwch perthnasol yn cael eu cwblhau.

## Gofal a Chymorth

Mae proses cyn derbyn darparwr y gwasanaeth yn asesu a yw'n gallu diwallu anghenion y bobl a'u cefnogi i gyflawni eu canlyniadau personol, a sut. Mae'r wybodaeth y gofynnir amdani ymlaen llaw gan yr awdurdod lleol sy'n comisiynu yn llywio'r asesiadau risg cychwynnol a'r asesiadau risg o ran effeithiau. Caiff asesiadau galluedd unigol eu cwblhau sy'n ystyried anghenion gofal a chymorth y bobl ac yn cadarnhau a oes angen penderfyniadau budd gorau. Caiff addasrwydd y cartref a chydnawsedd y bobl â'r unigolion eraill sydd eisoes yn byw yn y cartref eu hystyried hefyd. Mae'r wybodaeth a gesglir yn llywio asesiad y darparwr sydd newydd ei ddatblygu a'r ddogfen gynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, y cynlluniau personol, y cynlluniau cefnogi ymddygiad cadarnhaol a'r asesiadau risg.

Mae'r cynlluniau personol yn nodi sut y dylid darparu gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r wybodaeth yn y ffeiliau gofal electronig a thrafodaethau â'r staff gofal yn nodi bod cynlluniau personol y bobl yn cynnwys gwybodaeth fanwl ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Dywedodd y staff gofal wrthym fod y wybodaeth yn rhoi canllawiau cyfredol iddynt ar sut i ddiwallu anghenion gofal a chymorth corfforol ac emosiynol y bobl. Cynhelir cyfarfodydd amlddisgyblaethol bob mis â rheolwyr cartref darparwr y gwasanaeth a'r tîm clinigol er mwyn adolygu a monitro canlyniadau tymor byr a thymor hir y bobl. Yn ogystal, cynhelir cyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a chaiff cynlluniau cefnogi ymddygiad cadarnhaol eu cwblhau. Dywedodd y staff gofal wrthym fod seicolegydd cynorthwyol darparwr y gwasanaeth yn cysylltu â nhw'n rheolaidd a chanmolwyd ei gyfraniad.

Mae gan y gwasanaeth systemau ar waith i sicrhau y caiff anghenion y bobl eu diwallu a bod y staff yn gwrando arnynt. Mae'n anodd i rai pobl gyfleu eu hanghenion i'r tîm staff gofal oherwydd eu lefel dealltwriaeth a'u sgiliau cyfathrebu cyfyngedig. Anogir y bobl i gyfathrebu o fewn eu gallu. Cânt eu cefnogi gan staff gofal sy'n gallu defnyddio systemau cyfathrebu datblygedig fel ‘Talking Mats’, straeon cymdeithasol a dulliau cyfeirnodi gwrthrychau i'w galluogi i ddeall dewisiadau'r bobl. Mae trafodaethau â'r staff gofal yn nodi eu bod yn deall dewisiadau'r bobl mewn perthynas â'u gofal iechyd personol, eu hanghenion cymorth ymddygiadol, eu cyfathrebu, eu harferion a'u gweithgareddau. Mae'r wybodaeth yn y ffeiliau gofal a thrafodaethau â'r staff gofal yn dangos y caiff adolygiadau statudol eu cynnal yn rheolaidd ac y caiff cyswllt ag aelodau o'r teulu ei annog. Mae'r bobl yn cael cyfleoedd i fynegi cwynion drwy gael cymorth gan y staff gofal, eu teuluoedd/cynrychiolwyr, gwasanaethau comisiynu a gwasanaeth eirioli annibynnol.

Mae amrywiaeth o wasanaethau iechyd allanol ar gael i unigolion. Dengys y wybodaeth yn y ffeiliau gofal fod y bobl yn cael gofal meddygol a thriniaeth brydlon pan fo angen. Mae'r staff gofal yn eu helpu i fynd i apwyntiadau a chaiff canlyniadau ymgyngoriadau eu cofnodi yn y ffeiliau gofal. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant ar feddyginiaethau a chaiff meddyginiaeth ragnodedig ei storio'n ddiogel. Roedd siartiau'r cofnod rhoi meddyginiaeth a

welwyd yn gywir ar y cyfan, ond mae angen cysondeb yn y broses gofnodi ac archwilio. Gwnaethom drafod hyn â'r tîm uwch-reolwyr a ddechreuodd ymdrin â'r mater cyn cwblhau'r adroddiad hwn.

Mae gweithdrefnau diogelu a chwythu'r chwiban perthnasol ar waith. Mae'r staff gofal yn cwblhau hyfforddiant diogelu a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn ymwybodol o brosesau diogelu a chwythu'r chwiban darparwr y gwasanaeth. Dywedwyd wrthym y byddent yn *“Report concerns straight away”* a *“No concerns about the care and support people receive, they are safe here”.* Caiff ceisiadau Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid ac asesiadau risg eu diweddaru pan gaiff materion diogelu eu codi. Mae darparwr y gwasanaeth yn rhoi gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru am ddigwyddiadau diogelu hysbysadwy ac yn gwneud atgyfeiriadau diogelu amserol i'r awdurdod lleol pan fo angen.

## Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn cartref sy'n diwallu eu hanghenion, yn eu helpu i fod mor annibynnol â phosibl ac i sicrhau ymdeimlad o lesiant. Mae'r cartref yn darparu llety ar gyfer hyd at bedwar oedolyn mewn eiddo sengl mawr. Mae wedi'i leoli mewn ardal dawel, wledig ac mae modd cyrraedd trefi mwy o faint a dinas gyfagos yn hawdd drwy drefniadau trafnidiaeth y gwasanaeth ei hun. Gall y bobl fanteisio ar wasanaethau iechyd y cyhoedd, cyfleusterau siopa a chyfleusterau hamdden. Gwnaethom edrych ar bob ystafell yn y cartref, ac roedd pob un ohonynt yn ymddangos yn lân, yn daclus ac mewn cyflwr da.

Mae'r gegin/ardal fwyta/lolfa gymunedol yn fawr a cheir golygfeydd helaeth o'r ardal cefn gwlad gyfagos. Mae'n cynnig cyfleoedd i'r bobl gymdeithasu â'i gilydd neu gael amser tawel. Mae gan y gegin/ystafell fwyta ddyfeisiau amrywiol a bwrdd mawr a chadeiriau lle mae'r bobl a'r staff gofal yn bwyta eu prydau gyda'i gilydd. Mae dodrefn addas yn ardal y lolfa ac mae'n cynnwys digon o seddau ar ffurf soffas cyfforddus ac ardal gemau lle gall y bobl gael gafael ar gemau bwrdd a llyfrau. Mae'r dodrefn yn ystafelloedd gwely'r bobl yn addas, ac mae'r décor a'r dodrefn yn cyfateb i'r lefel o anghenion a aseswyd ar eu cyfer a'u dewisiadau. Maent yn dewis eu décor eu hunain yn dibynnu ar yr anghenion a nodwyd ar eu cyfer ac mae eu hystafelloedd yn cynnwys eitemau o bwys ac o ddiddordeb personol iddynt. Mae'r swyddfa yn hygyrch i'r bobl a'r staff gofal. Mae'n cynnig ardal ar gyfer cyfarfodydd, gwaith gweinyddol ac yn cael ei defnyddio fel ystafell gysgu i'r staff hefyd. Mae gan y cartref hefyd lolfa ychwanegol, ystafell wely i'r staff, dwy ystafell ymolchi, toiled ac ystafell golchi dillad/amlbwrpas ar wahân.

Caiff ardal yr ardd flaen ei chynnal a'i chadw'n dda ac mae digon o leoedd parcio ceir. Mae'r ardd fawr ar yr ochr ac yn y cefn yn ddiogel ac wedi'u hamgáu gan ffens bren fawr sy'n darparu ardal ar gyfer gweithgareddau awyr agored diogel a golygfeydd o gefn gwlad a'r mynyddoedd. Mae'n cynnwys lawnt sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda, coed a phrysgwydd amrywiol, blwch tywod, goleuadau allanol a thŷ gardd/sied. Mae gan ddarparwr y gwasanaeth gynlluniau ar waith i gael gwared ar y tŷ gardd/sied a chreu ardal ymdawelu bwrpasol i'r bobl allu ymlacio mewn amgylchedd diogel a thawel.

Caiff gwiriadau iechyd a diogelwch o'r safle eu cwblhau. Caiff peryglon amgylcheddol eu nodi gan y tîm staff ac adroddir arnynt i dîm rheoli darparwr y gwasanaeth. Dywedodd y rheolwr wrthym fod darparwr y gwasanaeth yn cefnogi'r newidiadau y mae angen eu gwneud yn y cartref, ac y gellir cysylltu â chontractwyr allanol os oes angen. Mae cofnodion ysgrifenedig yn cadarnhau y caiff profion eu cynnal ar gyfarpar ac offer trydanol, ac y caiff gwiriadau diogelwch tân eu cwblhau o fewn yr amserlenni a nodwyd. Mae gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod gwybodaeth gyfrinachol a sensitif yn cael ei storio'n ddiogel hefyd.

Mae darparwr y gwasanaeth yn hybu arferion hylan ac yn rheoli'r risg o haint. Mae polisi rheoli heintiau darparwr y gwasanaeth ar gael i'r staff gofal. Dywedwyd wrthym fod cyfarpar diogelu personol a chynhyrchion glanhau ar gael iddynt a'u bod yn fodlon ar y

gweithdrefnau rheoli heintiau presennol sydd ar waith. Mae cofnodion ysgrifenedig yn dangos bod profion o dymereddau dŵr diogel yn cael eu cwblhau'n rheolaidd.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu ar waith i gefnogi'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei weithredu, ac maent yn darparu sylfaen gadarn er mwyn sicrhau gofal a chymorth o ansawdd i'r bobl. Ceir cyswllt rhwng yr Unigolyn Cyfrifol â thîm uwch-reolwyr darparwr y gwasanaeth a dywedodd y rheolwr wrthym ei fod mewn cysylltiad rheolaidd â'r Unigolyn Cyfrifol. Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r gwasanaeth wedi trawsnewid o fod yn gartref plant i fod yn gartref oedolion. Canmolodd y staff gofal y ffordd y cafodd y newid hwn ei reoli gan ei ddisgrifio fel *“Positive experience”.* Clywsom hefyd ganddynt fod proses ymgynghori ddiweddar â'r staff yn *“Useful”* a *“Your opinion matters, makes you feel valued and appreciated”.*

Mae trefniadau ar waith i oruchwylio'r gwasanaeth yn effeithiol drwy brosesau sicrhau ansawdd parhaus. Mae'r Datganiad o Ddiben a ddiweddarwyd yn ddiweddar yn rhoi disgrifiad cywir o'r gwasanaeth a ddarperir ar hyn o bryd. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio materion gweithredol yn effeithiol ac yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd. Caiff adolygiad o ansawdd y gofal ei gwblhau gan y gwasanaeth bob chwe mis, ac mae gan ddarparwr y gwasanaeth system adrodd sy'n monitro, yn gwerthuso ac yn adolygu ansawdd y gofal a ddarperir. Mae unigolyn annibynnol yn cwblhau ymweliad monitro ansawdd bob chwe wythnos a chaiff ei adroddiad ei rannu â thîm rheoli darparwr y gwasanaeth er mwyn rhoi unrhyw argymhellion angenrheidiol ar waith.

Mae niferoedd priodol o staff gofal ar gael. Nid oes swyddi gwag ar hyn o bryd, ac nid yw'r gwasanaeth yn defnyddio staff asiantaeth ar hyn o bryd. Dengys y rota staffio fod y bobl yn cael gofal a chymorth yn unol â'u hanghenion a threfniadau'r gwasanaeth comisiynu. Dangosodd trafodaethau â'r tîm rheoli a'r staff gofal fod gwelliannau arwyddocaol wedi cael eu gwneud i'r lefelau staffio ers dechrau'r flwyddyn. Dangosodd y rota staff hyn hefyd, a dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn fodlon ar batrwm shifftiau'r rota newydd a'u bod yn cwblhau shifftiau ychwanegol pan fo angen. Mae darparwr y gwasanaeth yn dilysu geirdaon cyflogaeth ac yn cwblhau gwiriadau recriwtio staff manwl. Mae aelodau newydd o'r staff gofal yn cwblhau rhaglen sefydlu darparwr y gwasanaeth yn ogystal â Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol os nad ydynt wedi gwneud hynny eisoes.

Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant a sesiynau goruchwylio rheolaidd. Dengys cofnodion hyfforddiant y staff fod amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi ar-lein ar gael i'r staff gofal. Soniodd y staff gofal am ansawdd ac amledd yr hyfforddiant gan nodi ei fod yn *“Good”* ac *“It helps us”.* Mae cofnodion goruchwylio'r staff a thrafodaethau â'r staff gofal yn cadarnhau eu bod yn cael eu goruchwylio'n gyson. Canmolodd y staff gofal y tîm rheoli, gan ei ddisgrifio fel *“Fantastic”, “Supportive”* a *“Pro-active”.*

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**Dyddiad Cyhoeddi** 23/06/2023